Gorffennaf 2005

Nodyn Briffio

Colli ein cynefinoedd i newid hinsawdd

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Mae proffil mawreddog yr Wyddfa wedi ei wisgo yn eira'r gaeaf yn eicon Cymreig. Mae'n hyfryd o dawel a di-newid, ac yn denu miloedd o dwristiaid bob blwyddyn i galon Cymru. Mae pob un o enwogion y byd dringo wedi bod yno i dalu gwrogaeth - Tenzing Norgay, Syr Edmund Hillary, Syr Chris Bonington, Chris Brasher, a Syr Roger Bannister. Ond mewn ychydig flynyddoedd, gallai'r eira a'r rhew a wnaeth yr Wyddfa yn faes ymarfer ar gyfer yr Himalayas gael ei golli. Dengys yr ymchwil diweddaraf o Brifysgol Bangor enciliad cyson yn llinell eira'r Wyddfa. Gallai lili'r Wyddfa a phlanhigion alpaidd eraill sy'n dibynnu ar yr oerfel hefyd gael eu colli wrth i'r patrymau tywydd newid o ganlyniad i newid hinsawdd.

Beth yw newid hinsawdd?

Mae'r prif wyddonwyr yn cytuno bod newid hinsawdd yn rhywbeth gwirioneddol, a'i fod yn digwydd. Mae'r byd yn mynd yn gynhesach ac mae'r tywydd yn mynd yn fwy eithafol. Mae rhagor o sychder, stormydd a llifogydd ar eu ffordd. Mae'n ganlyniad uniongyrchol llosgi mwy a mwy o danwyddau ffosil ar gyfer defnydd cynyddol o ynni. Mae'r carbon deuocsid (CO_2) sy'n cael ei ryddhau yn cadw gwres yr Haul yn yr atmosffer gan achosi effaith tŷ gwydr. Mae lefelau CO_2 heddiw draean yn uwch nag yr oeddent cyn y chwyldro diwydiannol.

Beth sy'n digwydd i'r tywydd?

Ym Mhrydain, er enghraifft, mae nifer y stormydd gaeafol wedi dyblu dros y 50 mlynedd diwethaf. Mae cwmnïau yswiriant yn dweud y cynyddodd cost economaidd byd-eang trychinebau cysylltiedig â'r tywydd ddengplyg rhwng y 1950au a'r 1990au. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod tua 150,000 o bobl yn marw bob blwyddyn o ganlyniad i'r newidiadau hinsawdd hyn.

Yn ôl y tueddiadau presennol, mae'n edrych fel y bydd y patrwm hwn o dywydd ansefydlog yn datblygu ar gyfradd gyflymach fyth. Yng Nghymru, erbyn 2080, disgwyliwn weld gaeafau gwlypach/cynhesach a hafau poethach/sychach; stormydd amlach a chryfach gyda glawiad dwysach, a lefel y môr i godi hyd at 80cm. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar rai ardaloedd arfordirol ac isel ac ar weithgareddau economaidd pwysig megis twristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357, Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr

Mae byd cynhesach yn bygwth pobl a chynefinoedd. Awgrymodd astudiaeth ddiweddar yn Nature y gallai chwarter o anifeiliaid a phlanhigion y tir, 1 miliwn o rywogaethau i gyd, fod wei diflannu erbyn canol y ganrif.

Colli ein cynefinoedd

Bydd codiad yn lefel y môr, a achosir gan iâ tawdd a dŵr cynhesach ac ehangach, yn arwain at lifogydd mewn ardaloedd isel. Gallai aberoedd a chorsydd ger y môr ddiflannu. Gallai adar megis y pibydd coesgoch golli eu cynefin bridio; gwelltiroedd gwlyb mewndirol a morfeydd heli arfordirol. Gallai mannau fel aberoedd yr afon Dyfrdwy a'r afon Hafren golli ardaloedd, oherwydd codiad yn lefel y môr, y mae adar hirgoes ac adar eraill y glannau eu hangen i fwydo.

Erbyn canol y ganrif gallai rhostiroedd grugog a choetir ddioddef effeithiau andwyol. Bydd fforestydd naturiol yng Nghymru yn dioddef os bydd sychderau yn dod yn bethau mwy aml. Bydd coed fel y dderwen a'r onnen yn ei chael hi'n anodd i oroesi, tra y bydd conwydd yn ei chael hi'n haws. Bydd cyforgorsydd iseldir, tir gwlyb prin sy'n gartrefi i'r gwyfynod sydd hyd yn oed yn brinnach, yn sychu yn ystod hafau poeth. Bydd ucheldiroedd hefyd yn dioddef. Effeithir ar ansawdd dŵr mewn llynnoedd ac afonydd gan yr hafau hirach a chynhesach, gan ganiatáu i flymau algaidd ffynnu ar draul pysgod ac adar.

Beth fydd yn digwydd i'r arth wen?

Mae nifer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn annhebygol o oroesi newid hinsawdd. Ar gyfer rhai o'r rhywogaethau hyn ni fydd unman addas i fyw mwyach. Bydd eraill yn methu cyrraedd mannau ble mae'r hinsawdd yn addas. Mae eirth gwyn yn yr Arctig eisoes yn ei chael hi'n anodd gan fod prinder iâ ar y môr yn y gaeaf yn golygu bod yr amser sydd ganddynt i hela a bwyta morloi yn llawer byrrach. Mae planhigion yn blodeuo, cyrhaeddiad adar mudo, y tymor bridio ar gyfer yr adar ac ymddangosiad pryfetach eisoes yn edrych fel petaent yn digwydd ynghynt yma yn y DU. Mae arolwg sy'n cynnwys 65,000 o fywyd gwyllt a welwyd yn awgrymu bod y llyffantod a'r cacwn ymhlith y rhai yr effeithir galetaf arnynt gan y tymhorau anrhagweladwy.

Mae eirlysiau a chennin pedr yn blodeuo yn gynharach, mae'r deri yn deilio'n gynharach ac mae gloÿnnod byw megis glas y celyn yn ymddangos yn gynharach, wrth i'r gwanwyn ddechrau'n gynt a'r hydref ddechrau'n hwyrach.

Mae ffermio dan fygythiad

Bydd gaeafau mwynach yn caniatáu i blâu a bacteria eraill i oroesi, gan effeithio ar gnydau a bywyd gwyllt. Bydd priddoedd tenau yn sychu ac yn erydu yn yr haf. Bydd fflachlifau yn achosi mwy o bridd i gael ei olchi i lawr yr afon. Bydd newid cyflym mewn patrymau tywydd hefyd yn amharu ar batrymau tyfu. Ar draws y byd bydd methiant cnydau a newyn yn beryglon gwirioneddol iawn mewn ardaloedd ble y mae glaw eisoes yn brin, fel mewn rhannau o Affrica a China.

Beth ellir ei wneud am y peth?

Mae llawer y gellid ei wneud i rwystro a gwrth-droi'r cynnydd mewn allyriad y nwyon sy'n newid yr hinsawdd. Rhaid rhoi llawer mwy o bwyslais ar fesurau arbed ynni, systemau ynni adnewyddadwy (megis gwynt, solar a phŵer llanw) a systemau cludiant cyhoeddus da. Mae gan y system gynllunio rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael sylw drwy, er enghraifft, sicrhau fod pobl yn gallu gweithio, siopa a mwynhau cyfleusterau hamdden yn agos i'w cartrefi - gan leihau'r angen am deithio gormodol.

Ymunwch â'r Her Fawr

Mae ymgyrch Yr Her Fawr Cyfeillion y Ddaear yn helpu pobl sy'n poeni am newid hinsawdd i bwyso ar eu Haelodau Seneddol i basio deddf sy'n gorfodi Llywodraeth y DU i wneud toriadau blynyddol o 3 y cant mewn allyriadau CO_2 blwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu yn awr i leihau allyriadau carbon deuocsid - o gynhyrchiad trydan, o gludiant ac o ddiwydiant. *Ymunwch ag ymgyrch newid hinsawdd Yr Her Fawr i ofyn i'r llywodraeth ddechrau gweithredu ar newid hinsawdd.*
- Gallwch hefyd weithredu yn eich cartref neu'ch swyddfa drwy arbed ynni a chefnogi mentrau ynni adnewyddadwy, osgoi teithiau awyr a cheir diangen a phrynu'n lleol. *Am ragor o wybodaeth*

ewch i'n gwefan yn www.foecymru.co.uk.

- Mae rhwydwaith Ffenoleg y DU yn cynnal Calendr Natur, gyda dros 12,000 o bobl yn y DU yn helpu i gofnodi newidiadau mewn nature. *Rhagor o wybodaeth ynglŷn â chymryd rhan gan www.phenology.org.uk*

The climate is changing it's time to ask questions
Mae'r hinsawdd yn newid, mae'n bryd ofyn cwestiynau